Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi

Archwiliad & Dadansoddiad Anghenion o weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc (0-19 oed) ar draws Bro Ddyfi

Archwiliad sirol gan Bartneriaeth Fframwaith Plant & Phobl Ifanc Powys

Ym Medi 2006 cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr o angen gan Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Powys yn cofnodi gwybodaeth ystadegol am wasanaethau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ar draws y sir

Crynhowyd y casgliadau a gafwyd o'r archwiliad hwn fel a ganlyn:**:**

- **Materion cludiant** – roedd pobl ifanc yn teimlo fod gweithgareddau y dymunent gael gafael arnynt ond roeddynt yn cael eu rhwystro oherwydd diffyg gwasanaethau cludiant defnyddiol
- **Arian**/ Costau – diffyg gweithgareddau fforddiadwy
- **Trefn dewis addysg** – pobl ifanc yn symud allan i gwblhau eu haddysg
- **Cyngor gyrfaoedd**– nodwyd diffyg gwybodaeth gryno, o ansawdd
- **Dim 'Mannau Cyfarfod'** – ychydig o gaffis rhyngwe ac yn y blaen i bobl ifanc gyfarfod/gael cyngor
- **Dim 'Canolfan Wybodaeth' –** diffyg canolfan ar gyfer cyngor/gwybodaeth hanfodol
- **Gweithgaredd corfforol -** gostyngiad yn niferoedd plant 0 - 19 oed yn ymarfer yn rheolaidd
- **Bwlio/Diogelwch Cymunedol**
- **Gofal Plant –** diffyg gofal plant fforddiadwy yn ystod a thu allan i dymhorau ysgol
- **Tai –** diffyg gwybodaeth a thai fforddiadwy lleol = allfudo
- **Anabledd –** Gwasanaethau annigonol i blant/pobl ifanc gydag anghenion ychwanegol

Mae'r archwiliad hwn yn rhoi gorolwg bras dros weithgareddau & gwasanaethau ar draws Powys ond nid Bro Ddyfi yn benodol. Dywedodd yr holl bobl ifanc a llawer o'r darparwyr gwasanaeth lleol y siaradais â hwy am yr archwiliad hwn na fu ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses hon.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod y persbectif lleol yn adlewyrchu agweddau allweddol o'r dadansoddiad sirol.

Anghenion plant a phobl ifanc a nodwyd ym Mro Ddyfi

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i weithgareddau & gwasanaethau yn cynnwys:

- Gwella cyfleusterau caeau chwarae: siglenni, llithrennau, si-sos / offer a atgyweiriwyd
- Mwy o leoedd chwarae am ddim/gyda chymhorthdal, wedi'u trefnu; dyddiau chwarae / cynlluniau chwarae
- Gwasanaeth cludiant gwell i "gofleidio" gweithgareddau chwarae / cymdeithasol sy'n bodoli eisoes
- Cyfleusterau mawr, awyr agored, mynediad agored: meysydd chwarae antur, traciau BMX
- Cyfleusterau Hamdden: Sinema, canolfan sglefrio, parc thema, bowlio, peli paent
- Man 'galw i mewn' lleol ar gyfer pobl ifanc: caffi rhyngwe, clybiau ieuenctid
- Cefnogaeth ariannol / cyngor i deuluoedd incwm isel i helpu gyda chostau chwarae/gofal plant
- Gwelliannau i ddiogelwch cymunedol i alluogi mwy o chwarae awyr agored / cerdded adref ac yn y blaen
- Mwy o 'fannau gwyrdd': caeau chwarae, coedwigoedd hygyrch
- Mwy o weithgareddau chwarae / cymdeithasol yn 'lleol' - yn enwedig yn y pentrefi oddi amgylch
- Tripiau rheolaidd, wedi'u trefnu i ffwrdd o'r ardal gyda neu heb rieni.

Dyma'r prif ffactorau sy'n rhwystro mynediad at weithgareddau o'r fath, yn ôl pob golwg:

- **Costau:** pris rhy uchel - gofal plant, gweithgareddau cymdeithasol, costau teithio ac yn y blaen yn cael eu cymhlethu gan incwm net isel, swyddi cyflog isel, dibyniaeth ar fudd-daliadau.
- **Cludiant**: rhwydwaith cludiant annibynadwy / heb ei chydlynu, ynysigrwydd cefn gwlad, costau
- **Diogelwch Cymunedol**: Plant a phobl ifanc ddim yn gallu mwynhau chwarae allan yn rhydd, ofnau am ddiogelwch personol wrth gerdded adref ar ôl clybiau ac yn y blaen
- **Dewis**: Diffyg dewis o weithgareddau cymdeithasol yn enwedig ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed
- **Argaeledd**: Nifer cyfyngedig o leoedd gofal plant cofrestredig, ardal cyflwyno.

- **Iaith:** Materion yn codi i'r cymunedau iaith Gymraeg a Saesneg, fel y'i gilydd, gyda'r ddwy ochr yn teimlo cam-wahaniaethu.

- **Datblygiad:** Nifer annigonol o staff lleol yn datblygu prosiectau i fodloni'r anghenion a nodwyd. Diffyg cynnydd gwirioneddol gyda ‘chynlluniau gweithredu’ ac ‘ymgynghori’- dim cyfranogaeth gan blant a phobl ifanc heibio'r pwynt hwn

- **Cynaladwyedd**: Prosiectau yn cael eu dechrau ond heb eu cynnal, pobl ifanc yn cael eu dadrithio

- **Allfudo**: Pobl ifanc 16-19 oed yn gadael yr ardal i geisio gwaith/hyfforddiant

<u>Pwyntiau Gweithredu Allweddol:</u>

- **Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol Ymestyn Allan**

Gwneud cais ariannol am swydd - gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol
Gweithio gyda chymunedau i ail-gysylltu pobl ifanc gyda'r ddarpariaeth bresennol
Sefydlu darpariaeth newydd i lenwi'r bylchau a nodwyd h.y. Prosiectau Clwb Ieuenctid
Trefnu tripiau i blant lleol, pobl ifanc a'u teuluoedd
Hyrwyddo gweithdai cynnig cyngor yn y cymunedau lleol; gyrfaoedd, MAYP, CAMAD, hyfforddiant ayyb
Meithrin dwyieithrwydd yn y ddarpariaeth bresennol - sicrhau fod cynhwysiant llawn ar gael
Darparu mwy o weithgareddau chwarae/cymdeithasol i blant a phobl ifanc ag anghenion arbennig
Gweithio gyda ICC & grwpiau lleol i hybu'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol
Datblygu darpariaeth chwarae ymestyn allan – cynlluniau chwarae, chwarae mynediad agored, diwrnodau chwarae ayyb

- **Gwella a chydlynu rhwydwaith cludiant cyhoeddus**

Lobïo am newidiadau yn yr amserlenni
Gweithio gyda grwpiau lleol wrth gynllunio llwybrau teithio/amserlenni
Symleiddio amserlenni - gwybodaeth glir, gryno
Gwella mynediad at wybodaeth – dosbarthu amserlenni drwy grwpiau cymunedol / ICC
Mynediad at fws mini cymunedol

- **Gwella cyfleusterau lleol**

Caffi Rhyngwe? Lle "galw i mewn" i ieuenctid
Chwilio am arian i ddatblygu chwarae awyr agored - meysydd chwarae / Astroturf / ‘mannau gwyrdd’
Clybiau ffilm yn benodol i bobl ifanc
‘T_ Hanner Ffordd’ – trefnu tripiau i leoedd lle mae cyfleusterau gwell ar gael
Y Plas? Canolfan Gymunedol? Campws Cymunedol? Prosiect Braenaru?

- **Cynhwysiant**

Mwy o bwyslais ar gyfle cyfartal (integreiddio Cymraeg & Saesneg yn well)
Parch at iaith a diwylliant – cymuned <u>ddwyieithog</u>
Cefnogi prosiectau ymestyn allan rhiantu Ysgol Cedewain - hybu'n llawn
Datblygu darpariaeth chwarae mwy ‘cynhwysol’ (Chwarae Sir Drefaldwyn)

- **Diogelwch Cymunedol**

Mentora / cefnogaeth cymheiriaid mewn lleoliadau, drwy ysgolion, grwpiau cymunedol (Gweithiwr Ymestyn Allan)
Heddlu lleol yn gweithio *gyda* grwpiau cymunedol – angen mwy o bresenoldeb gweledol
Mwy o gynhwysiant cymdeithasol o ran pobl ifanc - darparu mwy o gyfleoedd am gyfranogaeth uniongyrchol

- **Costau**

Lobïo i sicrhau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdod lleol yn cydweithio wrth weithredu strategaethau *(ysgrifbinnau a phyrsiau yn gweithio gyda'i gilydd)*. Gall y sector gwirfoddol gyflawni ond mae angen arian.
Angen mwy o gefnogaeth i ddarparwyr lleol i weithredu mentrau ar lawr gwlad.
Cefnogaeth ariannol i ddarparwyr yn lleihau'r effaith ar deuluoedd lleol- gwasanaethau mwy hygyrch
Gwybodaeth eglurach am fudd-daliadau, cefnogaeth i deuluoedd incwm isel

Diane Jones – MCCP Cyf